# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Newidiadau i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2022** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Daniel Ricketts**<br><br>**Tîm Datblygu Deddfwriaeth Amaethyddol** |
| **Adran:** | **Yr Is-adran Amaethyddiaeth, Cynaliadwyedd a Datblygu** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Victoria Jones** |
| **Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | **Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **6 Awst 2022** |

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'r 10 amcan llesiant y bydd y Llywodraeth yn eu defnyddio i sicrhau ei bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at 7 nod llesiant hirdymor Cymru. Mae'r cynnig presennol yn cefnogi adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol fel gwneud dinasoedd, trefi a phentrefi hyd yn oed yn llefydd gwell i fyw a gweithio ynddynt. Ymhlith nodau penodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n berthnasol y mae sicrhau Cymru lewyrchus – datblygu economi wledig sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyfartal a gwlad sy'n ecolegol, yn economaidd ac yn gymdeithasol gydnerth. At hynny, bydd y gwaith yn cefnogi cymunedau cydlynus â diwylliant bywiog a Chymraeg sy'n ffynnu.

Nod y polisi hwn yw cyflwyno Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022 ["Gorchymyn 2022(2) "] sy'n rhagnodi cyfraddau tâl fesul awr ar gyfer gweithwyr amaethyddol a thelerau, amodau a budd-daliadau eraill. Bydd y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â phwerau yn Neddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ["Deddf 2014"].

Mae Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru ("y Panel") yn gorff cynghori annibynnol a sefydlwyd o dan Adran 2(1) o Ddeddf 2014 gan Orchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 ("Gorchymyn y Panel") ar 1 Ebrill 2016. Mae Gorchymyn y Panel yn nodi y dylai fod saith aelod ar y Panel:

- Dau gynrychiolydd o Uno'r Undeb;
- Un cynrychiolydd o Undeb Amaethwyr Cymru;
- Un cynrychiolydd o Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru; a
- Thri aelod annibynnol - gan gynnwys Cadeirydd annibynnol.

Dewisir yr aelodau annibynnol a'r Cadeirydd drwy'r Broses Penodiadau Cyhoeddus.

Mae erthygl 3(2) o Orchymyn y Panel yn pennu swyddogaethau'r Panel. Pwrpas y Panel yw paratoi gorchmynion cyflogau amaethyddol ar ffurf ddrafft, gan gynnwys adolygu'r holl delerau ac amodau sy'n berthnasol i weithwyr amaethyddol, a chefnogi datblygiad gyrfaol yn y sector. Mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am ymgynghori ar orchmynion o'r fath a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo.

Prif rôl aelodau Annibynnol y Panel yw cymhwyso eu barn arbenigol mewn trafodaethau ar faterion allweddol a chynghori ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

Rôl yr aelodau sy'n cynrychioli yw cymhwyso eu harbenigedd wrth gynrychioli buddiannau eu haelodau ar y materion allweddol yn nhrafodaethau'r Panel a chynghori ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

Mae cyfrifoldeb allweddol ar holl aelodau'r Panel o ran helpu i sicrhau bod Gorchmynion drafft teg a rhesymol yn cael eu cyflwyno ar faterion sy'n ymwneud â lefelau cyflog gofynnol a thelerau ac amodau perthnasol i weithwyr amaethyddol yng Nghymru, fel y'u diffinnir yn Neddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.

Cyfarfu'r Panel i benderfynu a ddylid cynnig newidiadau i Orchymyn Cyflogau 2022 ar 6 a 7 Medi 2021. Cynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu ar y newidiadau arfaethedig rhwng 11 Ionawr a 7 Chwefror 2022. E-bostiwyd y cynigion at restr helaeth o randdeiliaid, ac roeddent ar gael ar wefan y Panel. Roedd copïau caled hefyd ar gael ar gais.

Cafwyd saith ymateb i'r ddogfen ymgynghori. Cyfarfu'r Panel i drafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chytunwyd nad oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys mân wall mewn perthynas â'r cyfraddau sy'n gymwys i'r 'lwfansau arfaethedig eraill.' Cyhoeddwyd cywiriad i'r holl randdeiliaid ar y rhestr ddosbarthu a gofynnwyd am farn ar y cyfraddau. Anogwyd aelodau'r Panel i rannu'r cynigion ledled eu rhwydweithiau hefyd. Daeth 458 o ymatebion i law.

Yn dilyn hynny, cyflwynwyd eu cynigion i Lywodraeth Cymru ar 13 Mai 2022.

Bydd y cyfraddau isafswm a gynigiwyd gan y Panel yng Ngorchymyn 2022(2) yn disodli'r rhai yng Ngorchymyn 2022 ["Gorchymyn 2022"]. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pob gweithiwr amaethyddol yn cael ei amddiffyn ac yn cael cyflog teg sy'n adlewyrchu natur ei waith a'i gyfrifoldebau. Bydd darpariaethau yng Ngorchymyn 2022(2) yn parhau i wobrwyo cymwysterau a/neu brofiad mewn amaethyddiaeth sy'n cynnwys gwahaniaethau tâl sy'n seiliedig ar lefel y sgiliau sydd ei hangen ym mhob gradd. Bydd hyn yn gymhelliant i bobl yn y sector i ddatblygu'u sgiliau.

Bydd Gorchymyn 2022(2) yn parhau i ddarparu bod yn rhaid i unrhyw weithiwr amaethyddol a fyddai wedi dioddef gostyngiad yn eu cyfradd isafswm cyflog o ganlyniad i'w cymhathu i radd is neu gyfradd isafswm is o gyflog o dan y strwythur graddio a gyflwynwyd yng Ngorchymyn 2022 gael eu cyflog wedi'i rewi ar gyfradd cyflog y diwrnod cyn i Orchymyn 2022 ddod i rym nes bod y gyfradd isafswm cyflog sy'n berthnasol i'w gradd o dan y strwythur graddio newydd yn cyrraedd neu'n fwy na'u cyfradd cyflog bresennol.

Mae Gorchymyn 2022(2) yn cael ei roi ar waith yng nghyd-destun agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, i helpu economïau gwledig i dyfu a ffynnu a chyfrannu at economi ehangach Cymru.

Gan fod y rheoliadau yn ddeddfwriaeth eilaidd mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei gwblhau.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Nod y polisi hwn yw cyflwyno Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022 sy'n rhagnodi cyfraddau isafswm tâl fesul awr ar gyfer gweithwyr amaethyddol a thelerau, amodau a budd-daliadau eraill. Bydd y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â phwerau yn Neddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.

Mae Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru ("y Panel") yn gorff cynghori annibynnol a sefydlwyd o dan adran 2(1) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") gan Orchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 ("Gorchymyn y Panel") ar 1 Ebrill 2016.

Mae saith aelod ar y Panel:

- Dau gynrychiolydd o Uno’r Undeb;
- Un cynrychiolydd o Undeb Amaethwyr Cymru;
- Un cynrychiolydd o Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru; a
- Thri aelod annibynnol - gan gynnwys Cadeirydd annibynnol.

Dewisir yr aelodau annibynnol a'r Cadeirydd drwy'r Broses Penodiadau Cyhoeddus. Mae'r aelodau annibynnol yn cymhwyso eu barn arbenigol mewn trafodaethau ar faterion allweddol a chynghori ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

Mae’r aelodau sy’n cynrychioli yn cymhwyso eu harbenigedd wrth gynrychioli buddiannau eu haelodau ar y materion allweddol yn nhrafodaethau’r Panel ac yn cynghori ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant. Yn ei gyfanrwydd, mae dyletswydd allweddol ar aelodau'r Panel i sicrhau bod Gorchmynion drafft teg a rhesymol yn cael eu cyflwyno.

Cynhaliwyd ymgynghoriad 4 wythnos ac fe gafodd nifer o bobl oedd â nodweddion gwarchodedig eu gwahodd i ymateb. Fe'i cyhoeddwyd hefyd ar wefan y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth. Mae rhestr lawn o’r ymgyngoreion wedi’i hatodi.

Cafodd rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys undebau'r amaethwyr, Uno’r Undeb a cholegau amaethyddol eu cynnwys. Anogwyd aelodau'r Panel i rannu'r cynigion ledled eu rhwydweithiau . Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar dudalen we Ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ac roedd copïau caled ar gael ar gais hefyd.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Dylai rhai o'r rheini sy'n gweithio yn y sector amaethyddol neu sy’n ymuno â'r sector a'u teuluoedd elwa ar y darpariaethau ar isafswm cyflogau a hyfforddiant a meithrin sgiliau er mwyn datblygu eu gyrfaoedd.  Ceir manteision ehangach hefyd i economi Cymru a'n cymunedau wrth elwa ar lefelau

teg o gyflogau a lwfansau, a gweithlu mwy medrus. Ni fydd Gorchymyn 2022(2) yn effeithio ar blant yn benodol, dim ond fel rhan o'r manteision ehangach a nodir uchod.

Nid oes gennym unrhyw reswm i gredu bod effaith anghymesur na gwahaniaethu gan fod darpariaethau'r Gorchymyn yn berthnasol i bob gweithiwr amaethyddol. Fodd bynnag, nodwyd bod angen casglu mwy o dystiolaeth sylweddol er mwyn asesu'r sefyllfa'n llawn. Mae ymarfer casglu data sylfaenol wedi'i wneud, fodd bynnag, dim ond nifer bach o ganlyniadau a gafwyd. Bwriad y Panel yw cynnal arolwg o ffermwyr a gweithwyr amaethyddol yn ystod haf 2022 a fydd yn llywio'r Gorchymyn yn well ar gyfer 2023 ymlaen.

Mae manteision ehangach i economi Cymru yn deillio o lefelau teg o gyflogau a lwfansau a gweithlu medrus iawn. Mae'r Panel a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos ag undebau ffermio a chynrychiolwyr o weithwyr gyda'r bwriad o hybu amaethyddiaeth fel llwybr cyflogaeth hyfyw i bawb, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Wrth symud ymlaen rydym wedi nodi'r angen i gasglu a dadansoddi data ac ymchwil er mwyn deall effaith ein polisi ar grwpiau gwarchodedig yn well.

Nodwyd hefyd yr angen i sicrhau bod aelodaeth ein Panel Cynghori yn fwy amrywiol ac yn fwy cynrychioliadol o'r boblogaeth y mae'n ei chynrychioli. Cynhaliwyd proses Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer yr aelodau Annibynnol a dechreuodd y Cadeirydd a'r Aelodau Annibynnol newydd ar 1 Ebrill 2021.

Bydd y Gorchymyn yn cefnogi cymunedau gwledig lle mae'r Gymraeg gryfaf. Drwy hynny, bydd y Gorchymyn yn helpu i gynnal cymunedau Cymraeg cydlynus a ffyniannus yn yr ardaloedd lle mai amaethyddiaeth yw un o'r opsiynau gorau ar gyfer datblygu gyrfa. Mae effaith economaidd isafswm cyflog teg a'r gydnabyddiaeth a roddir gan y strwythur graddio o'r sgiliau sydd eu hangen yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy.

Mae'r Gorchymyn yn cefnogi cynaliadwyedd y Gymraeg yn uniongyrchol yn y 'bröydd Cymraeg' (e.e. Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy a Gwynedd) sydd yn bennaf yn wledig ac amaethyddol eu natur. Mae cynnal cymunedau gwledig yn golygu cynnal a chefnogi bywiogrwydd y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn. Mae yna effaith bositif amlwg ar yr iaith felly gan fod yna gysylltiadau cynhenid rhwng yr economi, y gymuned a'r iaith. Mae dros 70% o weithwyr amaethyddol y siroedd a nodwyd uchod yn siaradwyr Cymraeg ac felly'n elwa'n uniongyrchol yn sgil y strwythur graddio newydd.

O ran y Gymraeg, dim ond effeithiau cadarnhaol sydd wedi'u gweld.

Mae gwaith y Panel, gorfodi Deddf 2014, a'r holl Orchmynion, ymgynghoriadau a chanllawiau perthnasol i gyd yn ddwyieithog. Cynigir y Gymraeg mewn ffordd ragweithiol fel y cyfrwng

cyfathrebu mewn cyfarfodydd a digwyddiadau. Mae cyhoeddiadau a negeseuon i'r cyhoedd i gyd o hyd yn ddwyieithog.

Bydd cryfhau'r hyn y mae gwaith amaethyddol yng Nghymru yn ei gynnig yn helpu hefyd i gadw gweithwyr ym mröydd traddodiadol y Gymraeg, lle ffermio yw un o'r prif ffynonellau gwaith.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r cynnig presennol yn cefnogi creu Cymru ffyniannus, sicr, unedig a chysylltiedig. Ymhlith nodau penodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n berthnasol y mae sicrhau Cymru lewyrchus – datblygu economi wledig sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyfartal a gwlad sy'n ecolegol, yn economaidd ac yn gymdeithasol gydnerth. At hynny, bydd y gwaith yn cefnogi cymunedau cydlynus â diwylliant bywiog a Chymraeg sy'n ffynnu.

Mae sicrhau cyflogau teg i weithwyr amaethyddol a chefnogi cymunedau gwledig yn hanfodol bwysig o fewn cyd-destun agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru. Mae nodau penodol yr agenda yn cynnwys codi incwm cartrefi, gwella sylfaen sgiliau pobl ifanc a helpu teuluoedd mewn cymunedau tlotach. Drwy ddarparu cyflogau teg i weithwyr amaethyddol gellir cefnogi teuluoedd mewn ardaloedd gwledig drwy gynyddu incwm eu haelwydydd. Bydd y darpariaethau ar gyfer prentisiaid a hyfforddiant o fewn y Gorchymyn newydd yn helpu pobl ifanc i ennill sgiliau a chymwysterau, a all wella eu rhagolygon o ran swyddi yn y dyfodol.

Mae Gorchymyn 2022(2) yn parhau i ddarparu y dylai gweithwyr amaethyddol a gyflogir cyn i'r Gorchymyn ddod i rym a fyddai'n dioddef gostyngiad yn eu cyfradd isafswm cyflog o ganlyniad i'w cymhathu i radd is neu gyfradd isafswm is o gyflog o dan y strwythur graddio newydd arfaethedig gael eu cyflog wedi'i rewi ar gyfradd y cyflog a gawsant y diwrnod cyn i Orchymyn 2022 ddod i rym hyd nes y bydd y gyfradd isafswm cyflog sy'n gymwys ar gyfer eu gradd o dan y strwythur graddio newydd arfaethedig yn cyrraedd neu'n fwy na'u cyfradd cyflog bresennol.

Mae gweithdrefnau gorfodi hefyd ar waith er mwyn sicrhau bod modd cymryd camau yn erbyn unrhyw gyflogwr nad yw'n cadw at y cyfraddau isafswm cyflog neu delerau ac amodau'r Gorchymyn.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Mae ymarfer casglu data sylfaenol wedi'i wneud fodd bynnag dim ond nifer bach o ganlyniadau a gafwyd. Bwriad y Panel yw cynnal arolwg o ffermwyr a gweithwyr amaethyddol yn ystod haf 2022 a fydd yn llywio'r Gorchymyn yn well ar gyfer 2023 ymlaen.

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith Gorchymyn 2022(2), ac unrhyw Orchmynion dilynol a gynigir gan y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth, ar y sector amaethyddol yn cynnwys gweithwyr ifanc.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod gyda rhanddeiliaid allweddol a chasglu adborth ar effaith y ddeddfwriaeth newydd. Bydd rhif llinell gymorth a chyfeiriad e-bost ar gael o hyd er mwyn ymateb i ymholiadau sy'n ymwneud â Gorchymyn 2022(2). Bydd yr holl wybodaeth hon yn helpu i asesu effeithiolrwydd y Gorchymyn ac yn llywio unrhyw Orchymyn yn y dyfodol.